OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1373 (Cy.136)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Mehefin 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *9 Mehefin 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Mehefin 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

## RHAN 1

Cyflwyniad

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) (Diwygio) 2009; maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 30 Mehefin 2009.

**Diwygio**

**2.** Diwygir Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008(**3**) fel a nodir yn y Rheoliadau hyn.

**3.** Yn rheoliad 2 (Dehongli cyffredinol)—

(a) mewnosoder, yn y lle priodol yn ôl trefn yr wyddor—

(**1**) O.S. 2005/2766. Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**2**) 1972 p. 68.

(**3**) O.S. 2008/1275.

"ystyr "y farchnad ddomestig" ("*domestic market*") yw'r farchnad ar gyfer gwerthu cig dofednod yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon;";

(b) hepgorer y diffiniad o "dyddiad perthnasol";

(c) yn y lle priodol yn ôl trefn yr wyddor mewnosoder—

"ystyr "cig moch seropositif" ("*seropositive pig meat*") yw cig sy'n dod o fochyn seropositif—

(a) nad yw'n gig dan gyfyngiadau, a

(b) na chafodd ei drin yn unol ag Atodlen 2 mewn canolfan driniaeth ddynodedig;"; ac

"ystyr "mochyn seropositif" ("*seropositive pig*") yw mochyn nad yw'n anifail dan gyfyngiadau ond yn un y mae Gweinidogion Cymru'n ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei gigydda mewn lladd-dy oherwydd bod gwrthgorffynnau yn erbyn feirws clefyd pothellog y moch wedi cael eu canfod yn y mochyn hwnnw;".

**4.** Yn rheoliad 3 (Anifail, dofednod a chig dan gyfyngiadau: diffiniadau)—

(a) yn lle paragraff (8) rhodder—

"(8) Yn ddarostyngedig i baragraff (9) "cig dan gyfyngiadau" ("restricted meat") yw cig—

(a) a gynhyrchwyd ar neu ar ôl y dyddiad y datganwyd y parth gwarchod neu'r parth gwyliadwriaeth, neu ddyddiad cynharach os bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r dyddiad hwnnw at ddibenion rheoli clefydau;

(b) sy'n dod o anifail dan gyfyngiadau neu ddofednod dan gyfyngiadau o ardal heintiedig, parth gwarchod neu barth gwyliadwriaeth; ac

(c) sy'n cynnwys cig a ddaeth i gyffyrddiad â'r cyfryw gig.";

(b) ar ôl paragraff (8) mewnosoder—

"(9) Os yw cig dan gyfyngiadau wedi cael ei drin yn unol ag Atodlen 2 mewn canolfan driniaeth mae'n peidio â chael ei ganfod fel cig dan gyfyngiadau.".

**5.** Yn rheoliad 7 (Cig o fangre dan amheuaeth neu fangre heintiedig) mewnosoder ar ôl paragraff (3)—

"(4) Yn y rheoliad hwn ystyr "y dyddiad perthnasol" ("*relevant date*") yw'r dyddiad y daeth y fangre dan amheuaeth neu'r fangre heintiedig yn destun cyfyngiadau oherwydd clefyd, neu unrhyw ddyddiad cynharach os bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r dyddiad hwnnw at ddibenion rheoli clefydau.".

**6.** Yn rheoliad 9 (Gwahardd cyflenwi ac allforio cig)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer y gair "neu" sy'n dod yn union o flaen is-baragraff (b);

(ii) ar ddiwedd is-baragraff (b), hepgorer yr atalnod llawn ac ychwaneger—

"; neu

(c) allforio cig moch seropositif.";

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Nid yw'r gwaharddiad ym mharagraff 1(a) yn gymwys i gig dan gyfyngiadau o ddofednod dan gyfyngiadau a fwriedir ar gyfer ei gyflenwi i'r farchnad ddomestig.";

(c) hepgorer paragraff (3).

**7.** Yn rheoliad 10 (Lladd-dai)—

(a) ym mharagraff (1) ar ôl y geiriau "anifeiliaid dan gyfyngiadau" mewnosoder ", moch seropositif";

(b) ym mharagraff (2) ar ôl is-baragraff (ch) hepgorer yr atalnod llawn a mewnosoder—

";

(d) bod moch seropositif yn cael eu cadw ar wahân i foch eraill; a

(dd) bod moch seropositif yn cael eu cigydda ar wahân i foch eraill.";

(c) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

"(6) Os nad yw meddiannydd lladd-dy wedi cydymffurfio â gofynion paragraff (2)(d) neu (2)(dd) pan gaiff hysbysiad gan arolygydd milfeddygol, rhaid i'r meddiannydd drin y moch eraill hynny fel moch seropositif.

(7) Dim ond os yw'r lladd-dy yn un dynodedig y caiff meddiannydd lladd-dy dderbyn cig dan gyfyngiadau.".

**8.** Yn rheoliad 12 (Derbyn a meddu ar gig dan gyfyngiadau)—

(a) ym mharagraff (1) hepgorer y cyfeiriad at y geiriau "neu sefydliad" a'r geiriau "neu'r sefydliad hwnnw";

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys os yw'r cig cyfyngedig yn dod o ddofednod cyfyngedig a fwriedir ar gyfer ei gyflenwi i'r farchnad ddomestig yn unig.".

**9.** Yn rheoliad 13 (Marcio cig) ym mharagraffau (1), (2) a (3) ar ôl y geiriau "dan gyfyngiadau" ym mhob un o'r paragraffau hynny mewnosoder "neu gig moch seropositif".

**10.** Yn lle rheoliad 14 (Symud cig dan gyfyngiadau) rhodder—

"**14.**—(1) Ni chaiff neb gludo na threfnu i gludo cig dan gyfyngiadau i fangre neu sefydliad oni bai bod y fangre honno neu'r sefydliad hwnnw'n ddynodedig.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys os yw'r cig cyfyngedig yn dod o ddofednod cyfyngedig a fwriedir ar gyfer ei gyflenwi i'r farchnad ddomestig yn unig.".

**11.** Yn rheoliad 15 (Cadw cofnodion)—

(a) ym mharagraff (1) ar ôl y geiriau "anifail dan gyfyngiadau" mewnosoder ", mochyn seropositif";

(b) yn lle paragraff (1)(a) rhodder—

"(a) y nifer a'r math o anifeiliaid dan gyfyngiadau, moch seropositif neu ddofednod dan gyfyngiadau sydd wedi eu cigydda;";

(c) ym mharagraff (2) ar ôl "chig dan gyfyngiadau" mewnosoder "neu gig moch seropositif";

(ch) yn is-baragraffau (a) ac (c) o baragraff (2) yn lle'r geiriau "o gig dan gyfyngiadau" rhodder "o'r cyfryw gig";

(d) yn lle is-baragraff (d) o baragraff (2) rhodder—

"(d) pa faint o'r cyfryw gig nas bwriedir bellach ei fwyta gan bobl.";

(dd) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Nid yw paragraff (2) yn gymwys i unrhyw ddosbarthwr cyfanwerthu, dosbarthwr manwerthu, manwerthwr neu ddefnyddiwr—

(a) os yw'r cig dan gyfyngiadau yn dod o ddofednod dan gyfyngiadau ac a fwriedir yn unig ar gyfer ei gyflenwi i'r farchnad ddomestig; neu

(b) os yw'r cig yn gig moch seropositif.".

**12.** Yn Atodlen 3 (Marc adnabod arbennig) mewnosoder ar ôl paragraff 3—

"**3A.** Rhaid i gig moch seropositif gynnwys marc adnabod fel bod y Rhif o a'r llythrennau yn cael eu gosod mewn cylch sy'n ddarllenadwy, a'u bod yn annileadwy gyda llythrennau deongladwy ac yn cynnwys y priflythrennau "UK" a ddilynir gan rif cymeradwyo'r sefydliad.".

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

8 Mehefin 2009

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008 (O.S. 2008 Rhif 1275) ('Rheoliadau 2008') i weithredu gofynion ym mharagraff 4(d) o Atodiad II i Gyfarwyddeb y Cyngor 92/119/EEC o ran unrhyw gig sy'n dod o foch gyda gwrthgorffynnau yn erbyn clefyd pothellog y moch (y cyfeirir atynt fel “moch seropositif” ac a ddiffinnir yn rheoliad 3(c)) lle na chafodd y clefyd ei gadarnhau ond lle y gwnaeth Gweinidogion Cymru yn ofynnol eu bod yn cael eu cigydda.

Dim ond mewn lladd-dy dynodedig y caniateir cigydda'r cyfryw foch seropositif a rhaid eu cadw, tra byddant yno, ar wahân i foch eraill (rheoliad 7(b)). Ni chaniateir allforio'r cig sy'n dod o foch seropositif (rheoliad 6(a)). Sicrheir hyn drwy ofynion marcio a chofnodi o ran y cig moch seropositif (rheoliadau 9 a 11 (a) i (d) yn eu trefn). Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod marc newydd cylchog yn cael ei osod ar gig moch seropositif mewn diwygiad i Atodlen 3 (rheoliad 12).

Diwygir rheoliadau 9, 12, 14 a 15 o Reoliadau 2008 i dynnu ymaith y gofynion o ran cig dan gyfyngiadau o ddofednod dan gyfyngiadau a fwriedir ar gyfer ei gyflenwi i'r farchnad ddomestig yn unig (fel y'i diffinnir yn rheoliad 3(a)) er mwyn—

(a) tynnu ymaith y gofyniad bod cyflenwr cig y cyfryw ddofednod yn gwybod sut y mae eraill yn y gadwyn gyflenwi wedi trafod y cig heb gyflawni tramgwydd (rheoliad 6(b));

(b) tynnu ymaith y tramgwyddau o dderbyn y cyfryw gig dofednod mewn man heb ei ddynodi (rheoliad 8(b));

(c) tynnu ymaith y tramgwyddau o gludo cig dofednod dan gyfyngiadau i fan heb ei ddynodi (rheoliad 10); ac

(ch) eithrio dosbarthwyr cyfanwerthu a dosbarthwyr manwerthu, manwerthwyr a defnyddwyr rhag gofynion cadw cofnodion (rheoliad 11(dd)).

Tynnwyd y diffiniad o “dyddiad perthnasol” o reoliad 2 o Reoliadau 2008 gan nad yw'r diffiniad hwn bellach yn gymwys ond yn rheoliad 7 o Reoliadau 2008. Gan hynny, mae rheoliad 5 yn cyflwyno diffiniad diwygiedig o “dyddiad perthnasol” yn rheoliad 7(4) sy'n mynd i'r afael ag amwysedd cynharach a achoswyd drwy ddefnyddio'r term. Yn lle'r diffiniad o “cig dan gyfyngiadau” yn rheoliad 3(8) o Reoliadau 2008 rhoddwyd diffiniad diwygiedig a gyflwynir drwy reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn.

Nid oes asesiad effaith llawn wedi'i lunio ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir y bydd yr offeryn yn effeithio o gwbl ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.